Rhif: **WG25283**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

Canllaw Statudol am ddyletswydd ymgymerwyr carthffosydd i gysylltu eiddo â'r system carthffosydd cyhoeddus o dan Adran 101A Deddf Diwydiant Dŵr 1991.

Dyddiad Cyhoeddi: **18 Mehefin 2015**
Ymatebion erbyn: **31 Gorffennaf 2015**

OGL © Hailfraint y Goron 2015

## Trosolwg

Mae'r rhan fwyaf o eiddo yng Nghymru a Lloegr wedi'u cysylltu â'r system carthffosydd cyhoeddus ond mae rhyw 4% o eiddo yn dibynnu ar systemau annibynnol sy'n eiddo ac o dan weithrediad preifat.

Lle na all y systemau hyn gynnig ateb boddhaol tymor hir, un opsiwn i berchennog yw gwneud cais am garthffos gyhoeddus o dan ddarpariaethau carthffosydd tro cyntaf yn Adran 101A Deddf Diwydiant Dŵr 1991 (Adran 101A).

Mae'r ymgynghoriad hwn yn pennu'r canllaw drafft sy'n disgrifio'r opsiynau ar gyfer darparu system garthffosydd gynaliadwy i eiddo nad ydynt wedi'u cysylltu â'r system carthffosydd cyhoeddus. Mae'r canllaw drafft hwn yn rhoi gwybodaeth i helpu deiliaid, meddianwyr a pherchenogion tai ac eiddo i benderfynu a yw Adran 101A yn cynnig yr ateb iawn iddyn nhw ac yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r ymgymerwyr carthffosydd, y rheoleiddwyr amgylcheddol (Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd) a pherchenogion eiddo ar sut y dylid cymhwyso Adran 101A.

Yn 2014, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Ganllaw Statudol drafft ar ddyletswydd ymgymerwyr carthffosydd i gysylltu eiddo â'r system carthffosydd cyhoeddus o dan Adran 101A. O ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gwnaethom nifer o newidiadau i'r Canllaw a gafodd ei gyhoeddi wedi hynny ym mis Gorffennaf 2014.

Yn sgil cyhoeddi'r Canllaw, mynegwyd pryder am un newid oedd yn ymwneud ag esbonio a ddylid ystyried carafanau sefydlog a chartrefi symudol yn 'adeiladau' at ddiben ystyried a yw eiddo yn addas ar gyfer ei gysylltu â charthffos gyhoeddus o dan Adran 101A. Cafwyd sylwadau bod y newid yn awgrymu bod rheol gyfreithiol anhyblyg bod carafanau sefydlog a chartrefi symudol yn 'adeiladau', a bod hwn wedi'i ychwanegu heb ystyriaeth bellach.

Mae'r Canllaw wedi'i newid i adael y cwestiwn a yw carafanau sefydlog ac ati yn 'adeiladau' yn benagored. Rydym yn rhestru'r ystyriaethau y dylai ymgymerwr eu hystyried wrth benderfynu a yw am ddarparu carthffos gyhoeddus i eiddo â charafanau sefydlog a chartrefi symudol ynddo.

Mae'r Canllaw wedi'i newid hefyd i adlewyrchu penderfyniad Gweinidogion Cymru i ddynodi'r Arolygiaeth Gynllunio fel y corff i dorri dadleuon sy'n codi yn sgil goblygiadau Adran 101A.

Yng ngoleuni'r newidiadau hyn, rydym wedi penderfynu ailymgynghori ac yn croesawu eich barn am y newidiadau a gynigir ar gyfer y canllaw ac am unrhyw agweddau arall arno.

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

1. Ydych chi'n cytuno â'r ffordd rydym yn ei chynnig ar gyfer delio ag eiddo â charafanau sefydlog a chartrefi symudol, mewn perthynas â cheisiadau Adran 101A?

2. A yw'r broses newydd i ddynodi'r Arolygiaeth Gynllunio fel y corff datrys anghydfodau o dan Adran 101A yn glir?

3. A oes gennych farn ychwanegol ar y Canllaw diwygiedig ar ddyletswydd ymgymerwyr carthffosydd i ddarparu carthffosydd heblaw trwy orchymyn?

## Sut i ymateb

E-bostiwch/postiwch eich ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad isod, i'n cyrraedd erbyn Gorffennaf 2015 fan hwyraf.
water@wales.gsi.gov.uk

You may also send your comments to the postal address below.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

## Manylion cysylltu

Paul Harrison
Y Gangen Ddŵr
Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: water@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 5307

## Diogelu Data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**Canllaw Statudol ynghylch dyletswydd ymgymerwyr carthffosiaeth i gysylltu eiddo â'r system garthffosiaeth gyhoeddus o dan Adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991**

**Cynnwys**


| Adran | Teitl | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 2 |
| 2 | Cefndir<br>2.1 Nod adran 101A<br>2.2 Pwy sy'n gwneud beth? | 6 |
| 3 | Gofynion adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991<br>3.1 Dyletswydd yr ymgymerwr carthffosiaeth<br>3.2 Canllawiau<br>3.3 Anghydfodau<br>3.4 Gorfodi | 7 |
| 4 | Cysylltiadau â darpariaethau statudol eraill<br>4.1 Carthffosydd dan orfodaeth<br>4.2 Cysylltiadau a draeniau ochrol<br>4.3 Rheoliadau Cynllunio ac Adeiladu<br>4.4 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol<br>4.5 Pwerau Awdurdod Lleol | 10 |
| 5 | Y broses asesu<br>5.1 Gwybodaeth i ymgeiswyr<br>5.2 Amserlenni dangosol ar gyfer cais 101A<br>5.3 Ffactorau i'w hystyried mewn asesiad | 13 |
| 6 | Canllawiau i ddarpar ymgeiswyr<br>6.1 Gwybodaeth i ymgeiswyr<br>6.2 Y broses cyfeirio anghydfodau<br>6.3 Dyletswydd yr ymgeisydd i ddiogelu'r amgylchedd ac amwynder | 19 |
| 7 | Swyddogaeth Ofwat | 22 |
| | Atodiad 1 – Manylion cysylltu'r Rheoleiddiwr Amgylcheddol ac Arolygiaeth Gynllunio Cymru<br>Atodiad 2 – Adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991<br>Atodiad 3 – Ystyriaethau statudol<br>Atodiad 4 – Ffurflen Gais<br>Atodiad 5 – Adroddiad Penderfyniad Enghreifftiol<br>Atodiad 6 – Map o'r cwmnïau dŵr yn y DU | 23<br>24<br>28<br>31<br>33<br>40 |
| | Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad | 41 |

## 1. Cyflwyniad


Er bod y rhan fwyaf o’r anheddau sydd yng Nghymru a Lloegr wedi’u cysylltu â’r system garthffosiaeth gyhoeddus, amcangyfrifir bod 4%[1] ohonynt (7% ar gyfer Cymru yn unig) yn dibynnu ar systemau preifat sy’n cael eu gweithredu’n annibynnol, megis tanciau carthion, carthbyllau ac unedau trin carthion cryno. Yn y rhan fwyaf o achosion, cyhyd ag y bo’r rhain wedi cael eu gosod yn briodol a’u bod yn cael eu cynnal a’u cadw’n ddigonol, maent yn ateb boddhaol a chynaliadwy i broblem trin a gwaredu carthion. Fodd bynnag, mewn rhai lleoliadau gall ffactorau fel nifer a/neu faint yr anheddau, cyflwr y pridd a’r dŵr lleol ac anawsterau mynediad ar gyfer cynnal a chadw arwain at ollyngiadau anfoddhaol sy’n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd ac ar amwynder.

Os na all y systemau trin carthion preifat presennol gynnig ateb hirdymor boddhaol ar gyfer cael gwared ar garthion ac os ydynt yn achosi, neu'n debygol o achosi, problem amgylcheddol neu amwynder, gellir ystyried gofyn i’r ymgymerwr carthffosiaeth ddarparu cysylltiad â’r system garthffosiaeth gyhoeddus. Un dewis yw gwneud cais am garthffos gyhoeddus dan y darpariaethau carthffosiaeth tro cyntaf yn adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (y Ddeddf). Yn ogystal â chysylltu â'r ymgymerwr carthffosiaeth a'r awdurdod lleol, gall darpar ymgeiswyr ofyn am gyngor gan y rheoleiddiwr amgylcheddol perthnasol (Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer anheddau yng Nghymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr – cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel y Rheoleiddiwr) cyn gwneud penderfyniad. Mae manylion cysylltu i’w gweld yn Atodiad 1.

Mae Rhan IV y Ddeddf yn nodi’r gyfraith sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau carthffosiaeth cyhoeddus a dyletswyddau’r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth (y cyfeirir atynt fel “ymgymerwyr carthffosiaeth”) i gyflenwi’r gwasanaeth hwn.

Mae'r canllawiau statudol hyn yn cael eu cyflwyno gan Weinidogion Cymru dan adran 101A(4) o’r Ddeddf ac yn berthnasol i ymgymerwyr carthffosiaeth sy'n gweithio yng Nghymru yn llwyr neu'n bennaf. Yn ymarferol, mae hyn yn berthnasol i ardal Dŵr Cymru, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o Gymru a rhai rhannau o Loegr a wasanaethir gan y cwmni
(gweler Ffigur 1).

[1] 4% yw'r ffigur hwn ar gyfer Cymru a Lloegr



Ffigur 1

Nid yw'r Canllawiau yn disodli'r ddeddfwriaeth a dylid eu darllen ar y cyd â darpariaethau perthnasol y Ddeddf (gweler Atodiad 2) y bwriedir iddynt ei hegluro a bod yn atodiad iddi. Eu nod yw hysbysu'r partïon a allai fod yn gysylltiedig ag ystyried cais i ddarparu carthffosiaeth tro cyntaf i wasanaethu anheddau dan adran 101A o'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys:

- Deiliaid, meddianwyr a pherchnogion anheddau a'u cynrychiolwyr
- Staff iechyd yr amgylchedd a draenio Awdurdodau Lleol
- Ymgymerwyr carthffosiaeth
- Y rheoleiddwyr amgylcheddol – Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd
- Ofwat

Mae'r Canllawiau'n amlinellu'r dewisiadau ar gyfer sicrhau gwasanaeth carthffosiaeth cynaliadwy i anheddau nad ydynt wedi eu cysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Maent yn pwysleisio cyfrifoldebau perchnogion systemau trin carthffosiaeth preifat a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt. Yn benodol, maent yn darparu gwybodaeth i helpu deiliaid, meddianwyr a pherchnogion anheddau i benderfynu a yw adran 101A yn darparu'r ateb iawn yn eu hamgylchiadau hwy. Maent hefyd yn nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau ymgymerwyr carthffosiaeth, y rheoleiddwyr amgylcheddol ac Ofwat a sut y dylid cymhwyso adran 101A.

Gall darparu carthffos gyhoeddus dan adran 101A fod yn broses hirfaith. Er mwyn sicrhau canlyniad llwyddiannus, mae'n hanfodol bod y gymuned yn deall y broses ac yn ymrwymo i gysylltu anheddau â'r garthffos newydd. Er mwyn gwneud hyn, mae’n rhaid wrth ymgysylltu da yn y gymuned yr effeithir arni a rhwng y gymuned a'r ymgymerwr carthffosiaeth.

Mae anghydfodau rhwng ymgymerwyr carthffosiaeth a pherchnogion/ preswylwyr anheddau yng Nghymru, ynglŷn ag a oes dyletswydd yn bodoli dan adran 101A i ddarparu carthffos gyhoeddus, yn cael eu penderfynu gan yr Arolygiaeth Gynllunio, ac Asiantaeth yr Amgylchedd sydd â chyfrifoldeb am anghydfodau tebyg sy’n gysylltiedig ag anheddau yn Lloegr.

Mae'r Canllawiau hyn yn disodli’r Canllawiau blaenorol a gyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd a’r Swyddfa Gymreig yn 1996 a'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2014.

Mae cyfeiriadau at “y Gweinidogion” yn y canllawiau hyn yn golygu Gweinidogion Cymru ar gyfer ardaloedd sy’n cael eu gwasanaethu gan ymgymerwyr carthffosiaeth sydd wedi’u lleoli’n gyfan gwbl neu’n bennaf yng Nghymru a’r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd ar gyfer ymgymerwyr carthffosiaeth sydd wedi’u lleoli’n gyfan gwbl neu’n bennaf yn Lloegr.

## 2. Cefndir

### 2.1 Nod Adran 101A

### Nod Adran 101A

Cyflwynwyd Adran 101A yn 1995 drwy ddiwygio'r Ddeddf *"i'w gwneud yn haws darparu cysylltiad tro cyntaf â'r brif garthffos i anheddau sy'n bodoli'n barod"*[2]. Daeth Adran 101A i rym yn 1996 gan ddisodli cynllun grantiau carthffosiaeth gwledig cynharach.

Mae Adran 101A yn darparu fframwaith ar gyfer asesu a yw'n briodol darparu carthffos gyhoeddus mewn amgylchiadau penodol.

Lle bodlonir yr amodau yn Adran 101A sydd wedi'u crynhoi yn y paragraff canlynol, mae'r adran yn darparu bod yr ymgymerwr carthffosiaeth perthnasol yn cynnal asesiad i weld a yw darparu carthffos gyhoeddus yn ateb priodol i'r effeithiau andwyol a nodwyd ar yr amgylchedd ac ar amwynder. Bydd yr asesiad hwn yn ystyried ymarferoldeb cymharol, a chost a budd atebion eraill.

Dim ond i safleoedd lle mae adeiladau y mae Adran 101A yn berthnasol. Mae hefyd yn ofyniad nad yw'r draeniau neu'r carthffosau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer draenio carthffosiaeth ddomestig yn cysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Hefyd, mae'n rhaid i'r draenio achosi, neu fod yn debygol o achosi effeithiau andwyol fel ei bod yn briodol i ddarparu carthffos gyhoeddus. Mae'n rhaid ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion, ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill wrth benderfynu ar briodoldeb carthffos gyhoeddus.

### 2.2 Pwy sy'n gwneud beth?

Nid yw'r Ddeddf yn nodi sut y dylai deiliaid, meddianwyr a pherchnogion anheddau ofyn i ymgymerwr carthffosiaeth ddarparu system garthffosiaeth tro cyntaf. Fodd bynnag, dyma swyddogaethau allweddol y broses:

- Gall deiliaid, meddianwyr a pherchnogion anheddau ofyn i'r ymgymerwr carthffosiaeth ddarparu gwasanaethau carthffosiaeth dan adran 101A o'r Ddeddf;
- Mae'n ddyletswydd ar yr ymgymerwyr carthffosiaeth i ystyried y cais;
- Bydd y Corff Penodedig[3] yn penderfynu ynglŷn ag anghydfodau a gyfeirir ato os bydd yr ymgymerwr carthffosiaeth yn gwrthod darparu carthffos neu'n gwrthod cytuno ar ddyddiad cwblhau. Mae gan y Gweinidog rym i orfodi penderfyniad y Corff Penodedig. Mae'r ddyletswydd orfodi'n berthnasol os bydd y ymgymerwr carthffosiaeth wedi derbyn, neu os bydd y Corff Penodedig wedi penderfynu dan adran 101A, fod dyletswydd ar yr ymgymerwr carthffosiaeth i ddarparu

---

[2] Hansard, 28 Mehefin 1995, Colofn 1047
[3] Yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru, Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr

carthffos ac os yw’r amser a dderbyniwyd ganddynt, neu a bennwyd gan y Corff Penodedig ar gyfer cyflawni'r gwaith, wedi mynd heibio.

Mae gan y Rheoleiddiwr swyddogaeth o ran diogelu’r amgylchedd ac atal llygredd dŵr. Os oes llygredd yn digwydd gall gymryd camau yn unol â’i bolisïau Gorfodi ac Erlyn cyhoeddedig.

Er nad oes gan Awdurdodau Lleol swyddogaeth statudol yn y broses o wneud penderfyniadau sy’n gysylltiedig ag adran 101A, mewn llawer o achosion mae’n bosibl y bydd perchnogion anheddau’n cysylltu â hwy i ofyn am gyngor, neu mae’n bosibl y cysylltir â hwy oherwydd pryderon ynglŷn ag iechyd yr amgylchedd.

Mae’n bwysig bod swyddogion Awdurdodau Lleol yn deall swyddogaeth adran 101A o ran datrys problemau carthffosiaeth a’r cyfyngiadau ar y defnydd y gellir ei wneud ohoni. Mae Adran 59 o Ddeddf Adeiladu 1984 yn rhoi grym i awdurdodau lleol i gyflwyno hysbysiad yn ymwneud â draenio i berchnogion adeiladau pan allai’r systemau sydd ar waith effeithio ar iechyd neu fod yn niwsans.

Pan fo carthffos adran 101A wedi ei darparu, dylai'r Rheoleiddiwr a'r awdurdod lleol annog perchnogion anheddau i gysylltu â'r garthffos.

## 3. Gofynion Adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991

### 3.1 Dyletswydd yr ymgymerwr carthffosiaeth

Mae adran 101A(1) yn gosod dyletswydd ar yr ymgymerwr carthffosiaeth i ddarparu carthffos gyhoeddus i ddibenion carthffosiaeth ddomestig mewn lleoliad penodol pan fodlonir amodau sy'n cael eu hamlinellu yn adran 101A(2). Crynhoir y rhain isod:

- bod yr anheddau sydd dan sylw, neu unrhyw rai o'r anheddau hynny, yn anheddau sydd ag adeiladau arnynt [4];
- nad yw'r draeniau neu'r carthffosydd a ddefnyddir ar gyfer draenio i ddibenion carthffosiaeth ddomestig yr anheddau dan sylw, yn uniongyrchol na thrwy ddraen neu garthffos ryngol, yn cysylltu â charthffos gyhoeddus;
- bod draeniad unrhyw rai o'r anheddau dan sylw yn arwain, neu'n debygol o arwain, at y cyfryw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd neu ar amwynder; ac
- ar ôl ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd o dan yr adran hon gan y Gweinidog a phob ystyriaeth berthnasol arall, y cymerir ei bod yn briodol darparu carthffos gyhoeddus ar gyfer draenio i ddibenion carthffosiaeth ddomestig yr anheddau dan sylw.

Mae'r ddeddfwriaeth yn pennu cyfres o ystyriaethau y mae'n rhaid i'r ymgymerwr carthffosiaeth roi sylw iddynt (heb leihau effaith y gofynion i ystyried pob ystyriaeth berthnasol ac i'r Canllawiau). Sef:

- daeareg yr ardal dan sylw neu unrhyw ardal arall;
- nifer yr anheddau ag adeiladau arnynt, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyntgael eu draenio drwy gyfrwng y garthffos honno;
- costau darparu'r garthffos honno;
- natur a graddfa'r effeithiau andwyol ar yr amgylchedd neu ar amwynder sy'n cael eu hachosi, neu sy'n debygol o godi, oherwydd nad yw'r anheddau neu'r ardal dan sylw'n cael eu draenio gan garthffos gyhoeddus; ac
- i ba raddau y mae'n ymarferol i oresgyn effeithiau andwyol mewn ffyrdd eraill, a chostau eu goresgyn mewn ffyrdd eraill.

### 3.2 Canllawiau

Mae adran 101A(4) yn amlinellu cynnwys posibl Canllawiau a gyhoeddir gan y Gweinidog sydd i'w hystyried wrth benderfynu ynglŷn â dyletswydd dan adran 101A.

[4] Gweler adran 2 ar gyfer canllawiau ar ddehongli "adeiladau"

Wrth baratoi'r Canllawiau diwygiedig hyn, mae'r Gweinidog wedi ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Ofwat a chyrff a phobl eraill yr ystyrir eu bod yn briodol.

### 3.3 Cartrefi symudol a meysydd carafanau sefydlog

Fel a nodir uchod, mae'r cwestiwn beth sy'n adeilad at ddibenion adran 101A i gael ei benderfynu gan ystyr cyffredinol y gair. Mewn achosion ble yr ystyrir cartrefi symudol a charafanau sefydlog fel adeiladau, bydd y rhwymedigaethau yn adran 101A(1) yn berthnasol o ran darparu carthffos gyhoeddus.

Fodd bynnag, cydnabyddir bod elfennau penodol dan ystyriaeth yn achos cartrefi symudol a charafanau sefydlog.

Wrth benderfynu a yw'n briodol i garthffos gael ei ddarparu ar safle sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cartrefi symudol neu garafanau sefydlog, dylai'r ymgymerwr roi sylw i'r ystyriaethau yn adran 101A(3) - fel a nodir uchod - ond dylai hefyd roi sylw i'r ystyriaehtau canlynol:

- Sefydlogrwydd neu hirhoedledd (neu fel arall) y carafanau sefydlog neu'r cartrefi symudol ar y safle;
- Sefydlogrwydd neu hirhoedledd (neu fel arall) y safleoedd eu hunain fel safle ar gyfer carafanau sefydlog neu gartrefi symudol;
- Faint o amser mewn blwyddyn fydd pobl yn y carafanau sefydlog neu'r cartref symudol

### 3.4 Anghydfodau

Gellir cyfeirio unrhyw anghydfod rhwng ymgymerwr carthffosiaeth a pherchennog neu feddiannwr annedd yn ei ardal ynglŷn â darparu system garthffosiaeth tro cyntaf dan yr adran hon, neu amserlen hynny, gan y naill ochr neu’r llall at Gorff Penodedig am benderfyniad. Dylai’r Corff Penodedig hysbysu Ofwat ynglŷn ag unrhyw anghydfod a gyfeirir ato. Rhaid i’r Corff Penodedig hysbysu’r partïon ynglŷn â’i benderfyniad, a’r rhesymau drosto, a gall wneud argymhellion neu ddarparu canllawiau ar ddraeniad yr annedd neu’r ardal dan sylw. **Yng Nghymru, yr Arolgyiaeth Gynllunio yw'r Corff Penodedig.**

| |
|---|
| Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad – Ydych chi’n cytuno â’r trywydd a gynigir ynghylch carafanau parhaol a chartrefi symudol, mewn cysylltiad â cheisiadau Adran 101A? |

### 3.5 Gorfodi

Bydd yr ymgymerwr carthffosiaeth yn torri ei ddyletswydd dan adran 101A os yw wedi methu â chyflawni'r cynllun arfaethedig erbyn y dyddiad a nodwyd ganddo neu y penderfynwyd arno gan y Corff Penodedig ar ôl cyfeirio anghydfod ato. Mae'r Gweinidog wedi rhoi awdurdod i Ofwat[5] i gymryd camau gorfodi mewn cysylltiad ag unrhyw ymgymerwr carthffosiaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

[5] Dan adran 101A(6)(b) o'r Ddeddf

## 4. Cysylltiadau â darpariaethau statudol eraill

Mae Adran 101A yn un o nifer o ddarpariaethau statudol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau carthffosiaeth a diogelu'r amgylchedd neu amwynder. Cyn gwneud cais dan adran 101, dylai perchnogion a phreswylwyr ystyried perthnasedd y darpariaethau eraill cysylltiedig a amlinellir yn yr adran hon a allai fod yn berthnasol pan fo darpar ymgeisydd yn ystyried cynllun carthffosiaeth tro cyntaf.

### 4.1 Carthffosydd dan orfodaeth

Mae gan ymgymerwyr carthffosiaeth ddyletswydd i ddarparu carthffos gyhoeddus neu ddraen ochrol i ddibenion domestig dan adrannau 98 i 100 o'r Ddeddf yn ddibynnol ar amodau penodol. Gall perchnogion a phreswylwyr anheddau a'r awdurdod lleol wneud y cais. Er y gallai hyn o bosibl gynnig ateb cyflymach, mwy sicr, gall yr ymgymerwr carthffosiaeth ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n gwneud y cais gytuno ar amodau sy'n ei rwymo o ran taliadau i'r ymgymerwr carthffosiaeth am gostau darparu'r garthffos. Wrth asesu cais dan 101A, ni ddylid ystyried gorfodaeth fel ffordd arall o ddarparu carthffos gyhoeddus gan yr ymgymerwr carthffosiaeth.

### 4.2 Cysylltiadau a draeniau ochrol

Bydd cais llwyddiannus dan adran 101A yn arwain at adeiladu carthffos gyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys adeiladu draeniau sy'n gwasanaethu anheddau unigol a'u cysylltu â'r garthffos. Cyfrifoldeb perchennog neu feddiannwr yr annedd yw'r draeniau hyn, gan gynnwys y rhan honno o'r draen sydd rhwng terfyn yr annedd a'r garthffos gyhoeddus (a elwir yn ddraen ochrol) [6] a fydd yn cael ei mabwysiadu gan yr ymgymerwr carthffosiaeth. Rhaid i ddarpar ymgeiswyr ddeall goblygiadau ariannol darparu cynllun 101A iddynt hwy eu hunain pe baent yn penderfynu mynd yn eu blaen. I'w helpu i wneud y penderfyniad hwnnw efallai y bydd ymgeiswyr am gysylltu â'r ymgymerwr carthffosiaeth i ofyn am amcangyfrif o'r costau sy'n gysylltiedig â chysylltu â'r garthffos.

Gallai'r costau hyn gynnwys:

- Ffioedd am gysylltu draen 'ar annedd' a draen annedd â'r garthffos newydd (y Tâl Seilwaith);
- Costau adeiladu draeniau rhwng anheddau a charthffos newydd;
- Datgomisiynu'r system ddraenio bresennol – er enghraifft gwagiou tanc carthion a chael gwared arno;
- Taliadau gwasanaeth carthffosiaeth blynyddol.

---

[6] Yn ardal Dŵr Cymru mae angen cytundeb mabwysiadu ar gyfer y draen ochrol y mae'n rhaid ei adeiladu yn unol â safonau Gweinidogion Cymru, sydd i'w gweld yn: http://cymru.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/sewers/adoptionarrangements/?skip=1&lang=cy

Dylai gwaith adeiladu draeniau a'u cysylltu â'r garthffos newydd gael ei wneud ar yr un pryd ag y mae'r garthffos yn cael ei hadeiladu er mwyn lleihau costau ac aflonyddwch. Dylai ymgymerwyr carthffosiaeth annog hyn. Gall perchnogion a phreswylwyr hefyd ddefnyddio eu contractwyr eu hunain i wneud y gwaith o gysylltu â'r garthffos. Gellid gwneud cysylltiad yn diweddarach dan adran 106 o'r Ddeddf, ond mae'r costau adeiladu'n debygol o fod yn uwch.

Dylai perchnogion a phreswylwyr gysylltu â'u hymgymerwr carthffosiaeth er mwyn cael gwybod beth yw manteision tebygol cysylltu â'r garthffos ar yr adeg y mae'n cael ei hadeiladu.

### 4.3 Rheoliadau Cynllunio ac Adeiladu

Dim ond i anheddau sydd ag adeiladau arnynt y mae adran 101A yn berthnasol. O ganlyniad, nid yw'n bosibl i ddatblygwr sy'n bwriadu adeiladu annedd newydd ei defnyddio, ond ar ôl i garthffos gyhoeddus gael ei hadeiladu, gall datblygwr wneud cais am gysylltiad dan adran 106, fel yn achos unrhyw garthffos gyhoeddus arall.

Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod gan unrhyw ddatblygiad arfaethedig ddarpariaeth foddhaol ar gyfer ymdrin â charthion. Mae disgwyl i ddatblygwr ddangos y bydd trefniadau digonol yn cael eu gwneud ar gyfer carthffosiaeth; gall y awdurdod cynllunio lleol osod amodau cynllunio priodol er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol neu wrthod caniatâd os nad yw'n hyderus y bydd trefniadau addas yn cael eu gwneud gan y datblygwr. Pan fydd cynlluniau'n cael eu hadneuo yn unol â'r Rheoliadau Adeiladu[7], gall yr awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol cysylltu draeniau budr â'r garthffos gyhoeddus os yw o fewn can troedfedd (30.48m) i adeilad neu estyniad, yn amodol ar hygyrchedd[8].

Dylai arolygwyr adeiladu sicrhau bod carthbyllau a thanciau carthion yn cael eu hadeiladu'n unol â'r safon sy'n ofynnol ac nad ydynt wedi eu difrodi mewn unrhyw fodd cyn iddynt gael eu comisiynu.

### 4.4 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

Mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 yn cynnwys y darpariaethau rheoleiddiol sy'n ymwneud â rhyddhau elifion carthion i ddŵr wyneb neu ddŵr daear. Dylid cael trwydded amgylcheddol neu esemptiad ar gyfer unrhyw elifion carthion sy'n cael eu rhyddhau. Mae'n drosedd peidio â chydymffurfio â thelerau'r drwydded neu'r esemptiad. Mae gan y Rheoleiddiwr, fel y sefydliad gorfodi ar gyfer y Rheoliadau hyn, bwerau i gyflwyno hysbysiadau yn gofyn am gamau i ddiogelu'r amgylchedd dŵr. Er enghraifft, gallai hysbysiad roi manylion am waith i adnewyddu suddfannau tanciau carthion diffygiol.

---

[7] neu ar apêl, llys ynadon.
[8] Deddf Adeiladu 1984, a21

### 4.5 Pwerau awdurdod lleol

Mae adran 59 o Ddeddf Adeiladu 1984 yn rhoi grym i awdurdodau lleol i gyflwyno hysbysiad i berchnogion adeiladau yn ymwneud â draenio. Bydd yr awdurdod lleol yn cyflwyno hysbysiad os yw'n ymddangos nad oes darpariaeth ddraenio foddhaol neu os gallai'r system bresennol effeithio ar iechyd neu fod yn niwsans. Gallai methu â chydymffurfio â hysbysiad olygu bod yr awdurdod lleol yn gwneud y gwaith ac yn adennill costau. Mae gan Awdurdodau Lleol hefyd bwerau i gyflwyno Hysbysiadau Atal dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 pan fydd unigolyn yn gyfrifol am niwsans statudol.

## 5. Y broses asesu

Mae’r adran hon yn nodi’r wybodaeth a ddylai fod ar gael i ddarpar ymgeiswyr, y ffactorau technegol ac economaidd y dylid eu hystyried ac amserlenni targed ar gyfer y broses.

### 5.1 Gwybodaeth i ymgeiswyr

Gall asesu cais adran 101A fod yn broses gymhleth a chostus felly dylai ymgeiswyr ystyried atebion eraill hefyd cyn gwneud cais. Os mai cais dan yr adran hon yw’r ateb mwyaf priodol, dylai’r cais gynnwys cymaint o wybodaeth berthnasol â phosibl. Er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn deall y broses yn llawn, dylai ymgymerwyr carthffosiaeth gyhoeddi gwybodaeth sy’n egluro’r canlynol yn syml:

- Pwrpas a chwmpas adran 101A
- Dewisiadau eraill yn lle adran 101A a chostau cysylltiedig
- Sut i wneud cais
- Sut y bydd cais yn cael ei ystyried
- Y broses ymgeisio ac amserlenni
- Sut y mae anghydfodau’n cael eu datrys
- Costau a chyfrifoldebau ymgeiswyr
- Manylion cysylltu


Dylai’r ymgymerwyr carthffosiaeth hefyd gyhoeddi ffurflen gais, ynghyd â gwybodaeth am amserlenni gwneud cais. Gweler Atodiad 4 i weld ffurflen enghreifftiol.

Yn ystod pob rhan o’r broses, dylai’r ymgymerwr carthffosiaeth, a’r Corff Penodedig lle y bo’n briodol, hysbysu ymgeiswyr ynglŷn â’r cynnydd a sicrhau bod yr ohebiaeth yn cydymffurfio â’r safonau a bennwyd ar gyfer gwasanaeth i gwsmeriaid.

### 5.2 Amserlenni dangosol ar gyfer cais 101A

Nid yw'r amserlenni yn yr adran hon ac yn Adran 6.2 yn statudol ac er eu bod yn nodi arfer da, canllaw yn unig ydynt.

## Amserlenni dangosol ar gyfer cais 101A




Sylwer: Canllaw yn unig yw'r amserlenni yn y siart llif hon ac maent yn nodi'r amseroedd cyflwyno disgwyliedig. Nid ydynt yn orfodol ac nid yw methu â chadw atynt yn cychwyn dyletswydd nac yn atal apêl.

### 5.2.1 Cyswllt cychwynnol ag Ymgymerwyr Carthffosiaeth

Cyn gwneud cais ffurfiol i'r ymgymerwr carthffosiaeth am gynllun adran 101A, cynghorir yr ymgeisydd i gysylltu â'r ymgymerwr carthffosiaeth oherwydd mae'n bosibl y bydd ganddo wybodaeth a all fod yn berthnasol i'r cais.

Yn dilyn cais ffurfiol am gynllun adran 101A gan ymgeisydd dylai'r ymgymerwr carthffosiaeth gadarnhau ei fod wedi derbyn y cais **o fewn 14 diwrnod.**

Ar ôl cydnabod y cais, dylai'r ymgymerwr carthffosiaeth hysbysu'r ymgeisydd y bydd yn cynnal asesiad/ymchwiliad i'r safle dan sylw – **4 wythnos ar ôl y cais cychwynnol.**

Dylai'r ymgymerwr carthffosiaeth ysgrifennu at yr ymgeisydd **cyn pen 6 mis** i roi gwybod iddo a yw'n credu bod dyletswydd yn bodoli ai peidio. Mewn rhai achosion, os oes angen rhagor o amser i ymchwilio a oes dyletswydd yn bodoli ai peidio, dylai'r ymgymerwr ddarparu **diweddariad bob 6 mis** ynglŷn â'r cynnydd.

Ni ddylai penderfyniad gan yr ymgymerwr carthffosiaeth ynglŷn ag a yw'n credu bod dyletswydd yn bodoli gymryd mwy na **24 mis o ddyddiad y cais.**

### 5.2.2 Amserlenni er mwyn penderfynu a oes dyletswydd

Dylai fod yn bosibl gwneud asesiad cychwynnol **cyn pen 4 wythnos** o ddyddiad y cais er mwyn cael gwybod a yw'r cais yn ymwneud ag:

- anheddau y mae adeiladau arnynt; ac anheddau nad ydynt wedi eu cysylltu â charthffos gyhoeddus, a;
- anheddau lle y mae tystiolaeth o effeithiau andwyol gwirioneddol neu bosibl ar yr amgylchedd neu ar amwynder.

Lle bo asesiad cychwynnol yn dangos y gallai dyletswydd fodoli, dylai'r ymgymerwr gynnal asesiad llawn.

Os bydd yr ymgymerwr yn derbyn bod ganddo ddyletswydd i ddarparu carthffos, neu os bydd y Corff Penodedig wedi penderfynu bod ganddo ddyletswydd, dylai'r ymgymerwr bennu dyddiad targed ar gyfer dechrau adeiladu. Dylai'r ymgymerwr hysbysu'r ymgeiswyr a'r Corff Penodedig **cyn pen 3 mis** o ddyddiad cwblhau'r asesiad neu'r penderfyniad.

Os bydd yr ymgymerwr carthffosiaeth yn dod i'r casgliad ar ôl cynnal asesiad llawn nad oes ganddo ddyletswydd i ddarparu carthffos, dylai hysbysu'r ymgeisydd, gan roi rheswm dros y penderfyniad a manylion am y broses cyfeirio anghydfodau.

Caiff yr ymgeisydd gyfeirio anghydfod at y Corff Penodedig **cyn pen chwe mis**

o’r dyddiad y mae’r ymgymerwr yn ei hysbysu ynglŷn â’i benderfyniad[9]. Bydd y Rheoleiddiwr yn gofyn i’r ymgymerwr a’r ymgeisydd anfon unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen er mwyn gwerthuso’r anghydfod a bydd yn ceisio cwblhau’r broses anghydfod **cyn pen deuddeng mis** ar ôl derbyn gwybodaeth o’r fath.

Mae’n bosibl y bydd rhai achosion eithriadol ond, at ei gilydd, dylai’r cynllun fod wedi ei gwblhau cyn pen saith mlynedd o ddyddiad y cais, p’un a yw wedi mynd ymlaen i’r cam anghydfod ai peidio.

### 5.3 Ffactorau i'w hystyried mewn asesiad

Dylid ystyried y ffactorau technegol ac economaidd a amlinellir isod wrth asesu cais. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3, ond nid yw’r rhestr yn hollgynhwysfawr ac efallai na fydd y manylion yn berthnasol ym mhob achos.

Wrth gynnal yr asesiad, dylai’r ymgymerwr carthffosiaeth ymgynghori â’r awdurdod lleol, y Rheoleiddiwr ac awdurdodau iechyd fel y bo’n briodol. Dylai asesu ceisiadau yn brydlon a hysbysu’r ymgeisydd ynglŷn â’r cynnydd.

Os bodlonir yr amodau statudol cysylltiedig â'r anheddau, eu draeniad a'u heffeithiau ar yr amgylchedd ac amwynderau[10], bydd y ddyletswydd i ddarparu carthffos gyhoeddus yn debygol o fodoli:

- Pan fo cymhariaeth feintiol ac ansoddol o gostau a buddion darparu carthffos gyhoeddus â chostau a buddion ffyrdd eraill o ddatrys effeithiau andwyol ar yr amgylchedd ac ar amwynderau yn dangos, ar ôl ystyried y ffactorau technegol ac economaidd isod, mai darparu carthffos gyhoeddus yw'r ateb mwyaf cost effeithiol a nodwyd.

- Pan fo ymgymerwyr carthffosiaeth yn dangos bod cydbwysedd rhesymol rhwng hawl ymgeiswyr i gael carthffos gyhoeddus dan adran 101A a buddiannau cwsmeriaid yn gyffredinol sy'n talu am y ddarpariaeth drwy eu biliau.

#### 5.3.1 Meini prawf technegol

Gellir ystyried y meini prawf technegol hyn:

- Risg i adnoddau dŵr fel cyflenwadau dŵr preifat neu gyhoeddus.
- Risgiau i’r amgylchedd, iechyd y cyhoedd ac amwynder.
- Nifer yr anheddau y byddai’n rhesymol disgwyl iddynt gael eu gwasanaethu gan y garthffos arfaethedig. Byddai tystiolaeth ynglŷn â nifer

[9] Nid oes raid cyfeirio anghydfod at y Corff Penodedig o fewn chwe mis, ond bydd ei adael yn hwy yn ei gwneud yn fwy tebygol y gallai'r amgylchiadau newid a gwneud unrhyw benderfyniad yn anos.
[10] Gweler adran 101A(2)

perchnogion anheddau heb eu cysylltu yn yr ardal sy'n debygol o fanteisio ar y cynnig yn dylanwadu ar y disgwyliad hwn.

- Cyflwr y systemau presennol a'r posibilrwydd y gellid datrys y broblem drwy eu hadfer neu eu cynnal a'u cadw'n well.
- Pa mor agos y mae unrhyw garthffos gyhoeddus sy'n bodoli'n barod.

Mae dealltwriaeth o'r ddaeareg leol a'i goblygiadau o ran ymdreiddio'n foddhaol neu drosglwyddo i dderbynnydd hawdd ei niweidio, megis cyflenwad dŵr preifat neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yn debygol o fod yn hanfodol. Efallai y bydd gwybodaeth ar gael oddi wrth Arolwg Daearegol Prydain, y Rheoleiddiwr a'r staff rheoli adeiladu lleol. Efallai y bydd yn briodol i'r ymgymerwr gynnal profion trylifiad. Dylai'r rhain ddilyn y broses yn Nogfen Gymeradwy H2 y Rheoliadau Adeiladu. [11] Dylai nifer y profion fod yn seiliedig ar faint yr ardal, amrywiadau daearegol ac amrywiadau tymhorol.

Dylid casglu tystiolaeth oddi wrth y Rheoleiddiwr, yr awdurdod lleol, perchnogion a meddianwyr yn yr ardal a ffynonellau perthnasol eraill er mwyn deall effeithiau gwirioneddol neu bosibl y trefniadau draenio presennol ar yr amgylchedd, ar iechyd y cyhoedd ac ar amwynder. Os oes angen rhagor o wybodaeth am ansawdd y dŵr, dylid trafod â'r Rheoleiddiwr a chytuno ynghylch hynny.

Dylai'r ymgymerwr gynnal arolwg o'r ardal er mwyn canfod nifer yr anheddau a allai o bosibl gysylltu â charthffos gyhoeddus newydd. Er nad oes gan yr ymgymerwr ddyletswydd mewn cysylltiad ag anheddau nad ydynt yn debygol o achosi problem sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd neu amwynder, mae'r ffaith ei bod yn bosibl y bydd y rhain am gysylltu â'r garthffos yn berthnasol.

Dylai'r darpariaethau carthffosiaeth presennol gael eu harolygu, gan ystyried unrhyw amrywiadau tymhorol posibl. Dylid ystyried a fyddai'n bosibl datrys y broblem yn y tymor hir drwy waith atgyweirio a chynnal a chadw. Nid yw'n briodol darparu carthffos gyhoeddus os yw'r broblem yn cael ei hachosi gan fethiant i gynnal a chadw systemau carthffosiaeth sy'n foddhaol fel arall.

Mae agosrwydd y system garthffosiaeth gyhoeddus bresennol yn ffactor pwysig a fydd yn dylanwadu ar gostau. Ar ôl trosglwyddo carthffosydd preifat, mae'n bosibl nad yw'r garthffos gyhoeddus agosaf wedi ei nodi a'i mapio eto. Ni ddylai ymgymerwyr felly ddibynnu ar fap carthffosydd statudol (adran 199 o'r Ddeddf) a dylent sicrhau bod unrhyw asedau perthnasol sydd wedi eu trosglwyddo wedi eu nodi.

Cyhyd ag y bo o leiaf ddau eiddo, bod meini prawf perthnasol eraill yn cael eu bodloni, ac mai'r ffordd fwyaf ymarferol o gysylltu'r adeiladau hynny â'r garthffos bresennol yw drwy garthffos newydd yn hytrach na draeniau ochrol unigol, ni ddylid diystyru cynlluniau ar sail pellter lleiaf i garthffos.

[11] http://www.planningportal.gov.uk/buildingregulations/approveddocuments/parth/

### 5.3.2 Dewisiadau carthffosiaeth

Wrth asesu'r atebion carthffosiaeth ar gyfer ardal, dylai'r ymgymerwr ystyried dewisiadau eraill yn lle cysylltu â charthffos gyhoeddus sy'n bodoli'n barod, megis darparu carthffos ac uned trin carthion leol. Dylid hefyd werthuso dewisiadau sy'n ymwneud ag adnewyddu neu estyn carthffosydd preifat a systemau trin carthion sy'n bodoli'n barod.

Mae canllawiau ar gostau systemau trin carthion preifat ar gael gan y Ganolfan Ymchwil Dŵr (WRC)[12]. Mae'n bosibl y gall contractwyr lleol hefyd ddarparu gwybodaeth am gostau ac ymarferoldeb adnewyddu neu ailosod a chynnal a chadw.

### 5.3.3 Meini prawf economaidd

Dylid cynnal asesiad o'r ffactorau economaidd sy'n berthnasol i'r cynllun arfaethedig. Dylai'r asesiad fod yn gymesur â maint y cynllun sy'n cael ei gynnig. Dylai'r asesiad gynnwys cost gyfalaf y garthffos a chostau cynnal a chadw parhaus. Ni ellir ystyried refeniw a gynhyrchir o daliadau'r rhai sy'n cysylltu â'r garthffos.

Dylai'r asesiad o gostau'r dewisiadau preifat a chyhoeddus fod mor deg â phosibl, er enghraifft, dylid ystyried costau cyfreithiol a chostau rheoli prosiect yng nghostau'r dewis preifat os cânt eu cynnwys yng nghostau'r cynllun cyhoeddus.

Wrth asesu costau ailosod neu atgyweirio systemau preifat sy'n bodoli'n barod, dylai hyd oes y systemau hyn fod yn seiliedig ar adroddiad y Ganolfan Ymchwil Dŵr y cyfeirir ato uchod.

### 5.3.4 Adroddiad

Darperir templed enghreifftiol adroddiad am benderfyniad yn Atodiad 5. Mae'n adlewyrchu strwythur adran 101A ac yn dangos y camau yn y broses asesu a'r rhesymau dros benderfyniad yr ymgymerwr. Bydd hyn yn helpu ymgeiswyr i ddeall y penderfyniad a bydd yn helpu'r Corff Penodedig i ddatrys unrhyw anghydfod.

[12] Adran 101A – *Standard Costs for Private Sewage Treatment Systems.* http://www.wrcplc.co.uk/

## 6. Canllawiau i ddarpar ymgeiswyr

Darperir yr adran hon ar gyfer y rhai sy'n ystyried gwneud cais dan adran 101A. Mae'n cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth defnyddiol, a'r dewisiadau y dylid eu hystyried wrth benderfynu a ddylid gwneud cais, a cheir hefyd ffurflen gais safonol.

### 6.1 Gwybodaeth i ymgeiswyr

Mae gan bobl sy'n byw mewn ardal nad yw'n cael ei gwasanaethu gan garthffos gyhoeddus nifer o opsiynau o ran darparu systemau cynaliadwy i drin a gwaredu carthion. Mewn llawer o achosion, gall systemau unigol megis tanciau carthion ac unedau trin carthion bach, os cânt eu gosod a'u cynnal a'u cadw'n briodol, fod yn ateb cost effeithiol sy'n diogelu'r amgylchedd ac amwynderau lleol.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion, oherwydd amgylchiadau lleol, gallai'r systemau presennol fod yn achosi, neu fod â'r potensial i achosi, effaith andwyol ar yr amgylchedd neu ar amwynder. Os hynny, ac os oes mwy nag un annedd dan sylw, gall perchnogion neu feddianwyr yr anheddau ofyn i'r ymgymerwr carthffosiaeth ddarparu carthffos gyhoeddus dan adran 101A o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991.

Dylai darpar ymgeiswyr ystyried yn ofalus eu dewisiadau o ran darparu gwasanaethau carthffosiaeth. Mae'n bwysig eu bod yn deall costau posibl cysylltu eu hannedd eu hunain â'r garthffos newydd (gweler Adran 4.2) a chost cynnal a chadw systemau presennol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith. Rhaid i ymgeiswyr hefyd ystyried costau parhaus cynnal a chadw systemau presennol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith ac er mwyn effeithio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd neu ar amwynder hyd nes y bydd carthffos newydd wedi ei chwblhau. Nid yw'r broses ymgeisio a phenderfynu yn ateb cyflym, a gall gymryd blynyddoedd i gais llwyddiannus ddarparu carthffos.

Mewn rhai achosion, y perchnogion preifat fydd yn gyfrifol o hyd am uwchraddio neu ailosod eu systemau trin carthion presennol. Mae gwybodaeth am opsiynau ar wahân i gysylltu â phrif garthffos ar gael gan y Rheoleiddiwr[13] a chan British Water. [14]

Gellir cael rhagor o wybodaeth am gais adran 101A gan ymgymerwyr carthffosiaeth unigol. Ceir map yn nodi'r ardaloedd y mae ymgymerwyr yn gyfrifol amdanynt yn Atodiad 6. Ceir ffurflen gais enghreifftiol sy'n nodi'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i'r ymgymerwr carthffosiaeth allu prosesu cais yn Atodiad 4.

Os bydd asesiad cychwynnol cais yn dangos y gallai dyletswydd i ddarparu carthffos fodoli; dylai'r ymgymerwr carthffosiaeth wneud asesiad manwl i

[13] PPG4 – http://www.sepa.org.uk/about_us/publications/guidance/ppgs.aspx
[14] http://www.britishwater.co.uk/publications/publications_and_technical_guides.aspx

nodi'r anheddau a allai fod dan sylw; ymarferoldeb darparu carthffos ac atebion eraill posibl, gan gynnwys atgyweirio neu adnewyddu cyfleusterau sy'n bodoli'n barod. Gall hyn gymryd misoedd lawer a gall olygu bod y deiliaid tai dan sylw'n gorfod cwblhau holiaduron neu gael eu holi ynglŷn â'r cyfleusterau presennol ac unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd neu ar amwynder yn yr ardal.

Pan fydd yr ymgymerwr wedi cwblhau ei asesiad, rhaid iddo hysbysu'r ymgeiswyr ynglŷn â'i benderfyniad. Os bydd yr asesiad yn nodi bod dyletswydd i ddarparu carthffos yn bodoli, rhaid iddo, **cyn pen tri mis**, bennu dyddiad ar gyfer dechrau'r cynllun. Os nad yw'r asesiad yn cefnogi darparu carthffos, dylai hysbysu'r ymgeiswyr **cyn pen tri mis** a rhoi manylion y trefniadau ar gyfer cyfeirio anghydfodau.

## 6.2 Y broses cyfeirio anghydfodau

Dylid cyflwyno anghydfodau sy'n ymwneud â'r ddyletswydd i ddarparu carthffos neu'r amserlen ar gyfer ei chwblhau i'r Corff Penodedig cyn pen chwe mis o'r dyddiad y derbynnir hysbysiad yr ymgymerwr[15]. Gallai'r Corff Penodedig wneud cais am wybodaeth ychwanegol gan yr ymgeiswyr a chan yr ymgymerwr a bydd yn ceisio penderfynu ynglŷn ag apêl **cyn pen deuddeng mis** ar ôl derbyn gwybodaeth o'r fath. Byddai'n rhesymol i'r Corff Penodedig ddisgwyl ymateb cyn pen pedair wythnos ar ôl gwneud cais. Os na ddarperir unrhyw wybodaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn, neu gyfnod arall y cytunwyd arno, bydd y Corff Penodedig yn penderfynu ynglŷn â'r anghydfod ar sail y wybodaeth sydd ar gael. Ar ôl iddo ddod i benderfyniad ynglŷn â'r anghydfod, bydd y Corff Penodedig yn rhoi copi llawn o'i benderfyniad i'r ddau barti cyn pen pedair wythnos.

Gall penderfyniad gynnwys argymhellion, neu gall roi arweiniad, yn ymwneud â draeniad yr anheddau neu'r ardal dan sylw. Bydd hyn yn cynnwys y dyddiad y dylai'r ymgymerwr fod wedi dechrau ar y gwaith adeiladu.

Os bydd y penderfyniad ynglŷn â'r anghydfod yn cefnogi'r perchennog / meddiannwr, rhaid i'r ymgymerwr ei hysbysu **cyn pen tri mis** pryd y bydd y cynllun yn dechrau. Os nad yw'r ymgeisydd yn fodlon â'r dyddiad sy'n cael ei gynnig gall gyfeirio anghydfod arall i'r Corff Penodedig.

Pan fo anghydfod yn cael ei gyfeirio at y Corff Penodedig, er mwyn canfod a oes dyletswydd i ddarparu carthffos gyhoeddus ai peidio, gall yr ymgeisydd hefyd ofyn i'r Corff Penodedig benderfynu erbyn pryd y dylai'r ymgymerwr gyflawni dyletswydd o'r fath. Bydd hyn yn arbed yr ymgeisydd rhag gorfod codi dau anghydfod ar wahân; un i benderfynu bod dyletswydd yn bodoli ac un i benderfynu erbyn pryd y dylai'r ddyletswydd honno gael ei chyflawni.

[15] Nid oes raid cyfeirio anghydfod at y Rheoleiddiwr cyn pen chwe mis, ond po hiraf y gadewir y mater, mwyaf tebygol yw hi y bydd newid yn yr amgylchiadau a fydd yn ei gwneud yn fwyfwy anodd sicrhau penderfyniad.

## 6.3 Dyletswydd yr ymgeisydd i ddiogelu'r amgylchedd ac amwynder

Er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd ac amwynderau lleol yn cael eu diogelu, rhaid i ymgeiswyr gynnal a chadw eu cyfleusterau presennol hyd nes y byddant yn cysylltu â'r garthffos newydd. Rhaid i berchnogion hefyd sicrhau bod eu systemau carthffosiaeth preifat yn cydymffurfio â Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Mae angen trwydded amgylcheddol neu esemptiad ar gyfer unrhyw elifion carthion sy'n cael eu rhyddhau. Mae'n drosedd peidio â chydymffurfio a thelerau trwydded neu esemptiad.

## 7. Swyddogaeth Ofwat

Mae Awdurdod Rheoleiddio'r Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yn gyfrifol am reoleiddio perfformiad economaidd yr ymgymerwyr carthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr.

Mae Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi Ofwat i gyflawni swyddogaeth orfodi mewn cysylltiad â dyletswydd yr ymgymerwr i ddarparu carthffos gyhoeddus i ddibenion draenio carthion domestig dan adran 101A(1) o'r Ddeddf.

Mae gan Ofwat ddyletswyddau dan y Ddeddf i alluogi ymgymerwyr i gyllido eu swyddogaethau ac i ddiogelu cwsmeriaid. Mae Ofwat yn ceisio cyflawni'r dyletswyddau hyn drwy bennu dulliau rheoli prisiau bob pum mlynedd nad ydynt yn uwch nag y mae angen iddynt fod i ganiatáu i ymgymerwyr gynnal eu busnesau'n effeithiol. Mae Ofwat hefyd yn cydnabod bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng hawl ymgeiswyr i gael carthffos gyhoeddus dan adran 101A a buddiannau'r cwsmeriaid ehangach sy'n talu am y ddarpariaeth drwy eu biliau. Wrth ddehongli'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau hyn a phenderfynu a yw dyletswydd adran 101A yn codi ai peidio, bydd Ofwat yn disgwyl i ymgymerwyr ystyried costau a buddion cymharol cynlluniau unigol a gallu dangos bod cydbwysedd rhesymol wedi ei sicrhau.

Pan fo ymgymerwr wedi derbyn bod dyletswydd adran 101A i ddarparu carthffos gyhoeddus, dylai allu dangos i Ofwat fod ei gynlluniau ar gyfer gweithredu'r cynllun yn dilyn y canllawiau ynglŷn ag amseru yn adran 5 ac yn rhoi sylw i'r tybiaethau ariannu yn yr adolygiad blaenorol o brisiau a blaenoriaeth gymharol cynlluniau eraill yn ei raglen i wella'r amgylchedd, gan gynnwys cynlluniau eraill dan adran 101A.

**Atodiad 1**

**Manylion Cysylltu**

**Manylion Cysylltu yr Arolygiaeth Gynllunio ("Y corff penodedig")**

Ymholiadau cyffredinol ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

wales@pins.gsi.gov.uk

Ymholiadau cyffredinol: 02920 823866

**Manylion cysylltu Cyfoeth Naturiol Cymru:**

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Rhif ffôn: 0300 065 3000

Mae rhagor o wybodaeth am swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ar gael ar y wefan. Y ddolen gyswllt ar gyfer y wefan yw:

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk / www.naturalresourceswales.gov.uk

**Manylion Cysylltu Asiantaeth yr Amgylchedd:**

enquiries@environment-agency.gov.uk

Rhif ffôn: 03708 505 506

Mae rhagor o wybodaeth am rôl Asiantaeth yr Amgylchedd mewn cysylltiad â darparu carthffos gyhoeddus dan adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 ar gael ar wefan GOV.UK. Y ddolen gyswllt ar gyfer y wefan yw:

https://www.gov.uk/disputes-regarding-connection-to-the-public-sewer

**Atodiad 2**

**Deddf y Diwydiant Dŵr 1991**
**Adran 101A – Dyletswydd bellach i ddarparu carthffosydd**

(1) Without prejudice to section 98 above, it shall be the duty of a sewerage undertaker to provide a public sewer to be used for the drainage for domestic sewerage purposes of premises in a particular locality in its area if the conditions specified in subsection (2) below are satisfied.

(2) The conditions mentioned in subsection (1) above are--
(a) that the premises in question, or any of those premises, are premises on which there are buildings;
(b) that the drains or sewers used for the drainage for domestic sewerage purposes of the premises in question do not, either directly or through an intermediate drain or sewer, connect with a public sewer; and
(c) that the drainage of any of the premises in question is giving, or is likely to give, rise to such adverse effects to the environment or amenity that it is appropriate, having regard to any guidance issued under this section by the Secretary of State and all other relevant considerations, to provide a public sewer for the drainage for domestic sewerage purposes of the premises in question.

(3) Without prejudice to the generality of subsection (2)(c) above, regard shall be had to the following considerations, so far as relevant, in determining whether it is appropriate for any sewer to be provided by virtue of this section-
(a) the geology of the locality in question or of any other locality;
(b) the number of premises, being premises on which there are buildings, which might reasonably be expected to be drained by means of that sewer;
(c) the costs of providing that sewer;
(d) the nature and extent of any adverse effects to the environment or amenity arising, or likely to arise, as a result of the premises or, as the case may be, the locality in question not being drained by means of a public sewer; and
(e) the extent to which it is practicable for those effects to be overcome otherwise than by the provision (whether by virtue of this section or otherwise) of public sewers, and the costs of so overcoming those effects.

(4) Guidance issued by the Secretary of State under this section may--
(a) relate to how regard is to be had to the considerations mentioned in paragraphs (a) to (e) of subsection (3) above;
(b) relate to any other matter which the Secretary of State considers may be a relevant consideration in any case and to how regard is to be had to any such matter;
(c) set out considerations, other than those mentioned in paragraphs (a) to (e) of subsection (3) above, to which (so far as relevant) regard shall be had in determining whether it is appropriate for any sewer to be provided by virtue of this section;

(d) relate to how regard is to be had to any such consideration as is mentioned in paragraph (c) above;
(e) without prejudice to paragraphs (a) to (d) above, relate to how a sewerage undertaker is to discharge its functions under this section.

(5) The Secretary of State shall arrange for any guidance issued by him under this section to be published in such manner as he considers appropriate.

(6) Subject to the following provisions of this section, the duty of a sewerage undertaker by virtue of subsection (1) above shall be enforceable under section 18 above--
(a) by the Secretary of State; or
(b) with the consent of or in accordance with a general authorisation given by the Secretary of State.

(7) Any disputes (Subsections (7A) and (7B)) apply where there is a dispute between a sewerage undertaker and an owner or occupier of any premises in its area as to—
(a) whether the undertaker is under a duty by virtue of subsection (1) above to provide a public sewer to be used for any such drainage of those premises as is mentioned in that subsection;
(b) the domestic sewerage purposes for which any such sewer should be provided; or
(c) the time by which any such duty of the undertaker should be performed,

(7A) The dispute is to be determined by the appropriate person and may be referred to the appropriate person for determination by either of the parties to the dispute.

(7B) If the dispute is between a sewerage undertaker and an owner or occupier of premises in Wales, the NRBW must provide advice in relation to any of the matters mentioned in subsection (7)(a) to (c) if so requested by –
(a) either of the parties to the dispute, or
(b) the appropriate person.

(7C) Any advice provided by the NRBW under subsection (7B) must be provided to both parties to the dispute and to the appropriate person.
(8) The appropriate person--
(a) shall notify the parties of the reasons for its decision on any dispute referred to it under subsection (7A) above; and
(b) may make any such recommendations, or give any such guidance, relating to or in connection with the drainage of the premises or locality in question as it considers appropriate.

(9) The decision of the appropriate person on any dispute referred to it under subsection (7A) above shall be final.

(10) A sewerage undertaker shall only be taken to be in breach of its duty under subsection (1) above where, and to the extent that, it has accepted, or

the appropriate person has determined under this section, that it is under such a duty and where any time accepted by it, or determined by the appropriate person under this section, as the time by which the duty is to that extent to be performed has passed.

(11) In this section the appropriate person means -

(a) The Environment Agency, in relation to disputes between sewerage undertakers and owners or occupiers of premises in England;

(b) the Welsh Ministers in relation to disputes between sewerage undertakers and owners or occupiers of premises in Wales or such person as the Welsh Ministers may from time to time appoint as the appropriate person in relation to such disputes.

(12) A person may be appointed as the appropriate person under subsection (11)(b) only if the person is independent of the NRBW.

(13) A person is independent of the NRBW for the purposes of subsection (12) if the person is— .
(a) an individual who is not a member of the NRBW or the NRBW's staff, or
(b) a body none of whose members is a member of the NRBW or the NRBW's staff

Note that:

Under the transfer of functions to the National Assembly for Wales: the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, SI 1999/672, art 2(a), Sch 1 (as amended by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2000, SI 2000/253, art 4, Sch 3(e)) provides that, subject to art 2(b) to (f) of the 1999 Order, the functions of a Minister of the Crown under this section are transferred to the National Assembly for Wales with respect to both water supply and sewerage, in relation to any water or sewerage undertaker whose area is wholly or mainly in Wales.

In practice this means that references to the Secretary of State in this section mean the Secretary of State for sewerage undertakers based wholly or mainly in England and Welsh Ministers for sewerage undertakers based wholly or mainly in Wales.

Sylwer:

Yn unol â darpariaethau trosglwyddo swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, OS 1999/672, erthygl 2(a), Atodlen 1 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000, OS 2000/253, erthygl 4, Atodlen 3(e)) yn darparu, yn amodol ar erthygl 2(b) i (f) o Orchymyn 1999, fod swyddogaethau Gweinidog y Goron dan yr adran hon yn cael eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yng nghyswllt cyflenwi dŵr a charthffosiaeth, mewn cysylltiad ag unrhyw ymgymerwr dŵr neu garthffosiaeth y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr adran hon yn golygu'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer ymgymerwyr carthffosiaeth sydd wedi eu lleoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr a Gweinidogion Cymru ar gyfer ymgymerwyr carthffosiaeth sydd wedi eu lleoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

## Atodiad 3

**Deddf y Diwydiant Dŵr 1991**
**Adran 101A – Ystyriaethau statudol**

Amlinellir yr ystyriaethau statudol yn adran 5 - Y Broses Asesu. Mae’r paragraffau isod yn rhoi canllawiau **ychwanegol** ar gymhwyso’r ystyriaethau i ymgymerwyr carthffosiaeth.

### a. Daeareg ardal

Rhaid archwilio’r sefyllfa ddaearegol yn ddigon manwl i wneud penderfyniad rhesymegol ynglŷn â chost ac ymarferoldeb y gwahanol ddewisiadau sydd i’w hystyried.
Dyma enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gallai daeareg chwarae rhan bwysig wrth wneud penderfyniadau – sefyllfaoedd lle mae daeareg yr ardal yn golygu:

- bod rhyddhau elifion carthion yn fwy tebygol o effeithio ar ddŵr daear;
- bod rhai atebion technegol yn mynd i fod yn llai ymarferol neu’n fwy costus nag arfer;
- bod cost darparu carthffosydd yn mynd i fod yn llai ymarferol neu’n fwy costus nag arfer; neu
- bod unrhyw ddull penodol o waredu elifion yn aneffeithiol neu’n aneffeithlon.

Rhaid ystyried yr effaith ar ddefnyddwyr presennol neu ddarpar ddefnyddwyr dŵr o ganlyniad i’r ffaith bod ffurfiannau daearegol lleol yn caniatáu i ddeunydd sy’n achosi llygredd / elifion carthion drosglwyddo, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, drwy ymdreiddiad, trylifiad, neu ddŵr ffo, o’r systemau draenio presennol. Yn y cyd-destun hwn, dylid nodi y gallai problemau effeithio ar leoedd eraill y tu hwnt i’r ardal dan sylw. Gall ymgymerwr carthffosiaeth hefyd ystyried costau oherwydd daeareg ardaloedd y tu hwnt i’r ardal dan sylw.

### b. Nifer yr anheddau y disgwylir iddynt gael eu draenio gan garthffos

Rhaid i gyfanswm yr anheddau y byddai’n rhesymol disgwyl iddynt gael eu draenio gan y garthffos gael ei bennu drwy arolwg o:

- anheddau a chanddynt eisoes broblem yn ymwneud â’r amgylchedd neu amwynder y gwyddys amdani;
- anheddau sy’n debygol o fod â phroblem yn ymwneud â’r amgylchedd neu amwynder;
- anheddau eraill yn yr ardal (nad ydynt yn debygol o arwain at broblem yn ymwneud â’r amgylchedd neu amwynder yn y dyfodol) y gellid eu gwasanaethu.

Wrth amcangyfrif nifer yr anheddau eraill sy’n debygol o gysylltu â’r garthffos yn ystod oes ddisgwyliedig y garthffos, mae’n rhesymol ystyried canlyniadau arolygon a chyfraddau cysylltu ar gyfer cynlluniau tebyg sydd wedi cael eu darparu ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall am farn pobl sy’n byw yn yr ardal.

Os yw arolygon parodrwydd i gysylltu'n nodi costau cysylltu, dylid gosod hyn yn ei gyd-destun ynghyd â chost yr opsiwn preifat.

Gall awdurdod lleol ddefnyddio ei bwerau statudol i'w gwneud yn ofynnol cysylltu â charthffos. Mae adran 21 o Ddeddf Adeiladu 1984 yn rhoi grym i awdurdod lleol i fynnu bod adeilad neu estyniad newydd sydd o fewn 30 metr i garthffos yn cael ei gysylltu. Mae adran 59 o'r Ddeddf honno yn rhoi grym i awdurdod lleol i fynnu bod darpariaeth statudol yn cael ei gwneud ar gyfer draenio adeilad mewn amgylchiadau penodol. Dylai'r ymgymerwr carthffosiaeth geisio deall sefyllfa'r awdurdod lleol er mwyn ystyried hyn. Gellid gwneud hyn drwy ddarparu diweddariadau i'r awdurdod lleol ar adegau allweddol yn ystod y broses.

**c. Costau darparu'r garthffos**

Dylai costau darparu prif garthffos ymdrin â'r buddsoddiad a'r costau cynnal a chadw yn ystod oes ddisgwyliedig y garthffos. Ni ddylid cynnwys refeniw a fyddai'n cael ei gynhyrchu o daliadau sy'n daladwy o ganlyniad i adeiladu unrhyw garthffos gyhoeddus yn y cyfrifiad hwn.

Mae'r ddeddfwriaeth ar garthffosydd cyhoeddus yn caniatáu i berchennog annedd sydd wedi'i gysylltu â charthffos o'r fath ddraenio dŵr wyneb i'r garthffos honno oni bai fod system ar wahân ar gael ar gyfer dŵr wyneb. Wrth asesu costau cynllun, dylid ystyried amgylchiadau lleol a'r risg sy'n gysylltiedig â gwneud cysylltiadau o'r fath. Wrth wneud hynny, dylid nodi bod rheoliadau adeiladu'n darparu hierarchaeth ar gyfer gwaredu dŵr wyneb o annedd[16], sy'n mynnu bod yn rhaid ystyried gwaredu i suddfan dŵr neu'n uniongyrchol i gwrs dŵr cyn gwneud unrhyw gysylltiad â charthffos fudr.

**d. Risgiau i'r amgylchedd, iechyd y cyhoedd ac amwynder**

Rhaid i'r ymgymerwr asesu'r effeithiau andwyol y mae'r systemau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn debygol o'u cael ar yr amgylchedd, ar iechyd y cyhoedd neu ar amwynder, yn awr ac yn y dyfodol er mwyn:

- gwerthuso'r hyn y mae'n rhaid ei wneud er mwyn cyrraedd sefyllfa lle nad oes problem wirioneddol na bygythiad o broblem mwyach i'r amgylchedd nac i amwynder.

Ar ôl casglu tystiolaeth o'r ffynonellau perthnasol, dylid ei hadolygu er mwyn gweld a yw'n dangos:

- bod elifion carthion heb eu trin neu elifion carthion wedi eu trin yn rhannol yn mynd i mewn neu'n debygol o fynd i mewn i ddyfroedd a reolir (megis ffos, nant neu afon);
- bod elifion yn cronni neu'n gorlifo, neu'n debygol o gronni neu orlifo, o ganlyniad i gyflwr y ddaear mewn mannau lle mae suddfannau dŵr;
- bod dŵr wyneb yn cael ei effeithio, neu'n debygol o gael ei effeithio;

[16] www.planningportal.gov.uk/uploads/br/BR_PDF_ADH_2002.pdf *see section H3*

- risg y gallai llifogydd effeithio ar y systemau draenio preifat a'u gwneud yn aneffeithiol;
- bod lefel y dŵr daear lleol yn codi'n gyson ac y bydd yn achosi i'r systemau draenio preifat fod yn aneffeithiol;
- bod dwysedd datblygiad neu gynnydd yn nifer y systemau draenio'n gorlwytho suddfannau neu gyrsiau dŵr gan arwain at broblemau cronni, llifogydd lleol a/neu lygru cwrs dŵr

Er mwyn asesu natur a graddfa unrhyw effeithiau andwyol yn llawn dylid cadarnhau:

- bodolaeth unrhyw lygredd, dŵr yn cronni neu lifddyfroedd yn deillio o'r systemau draenio preifat sy'n achosi, neu a allai achosi:
  - risg i iechyd y cyhoedd;
  - risg i iechyd da byw;
  - niwsans gweledol a/neu arogl;
  - effeithiau andwyol ar unrhyw gynefin neu fywyd gwyllt, gan gynnwys anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw mewn dŵr neu organebau mewn unrhyw gwrs dŵr neu ddyfroedd arfordirol;
  - i dir fod yn dir na ellir ei ddefnyddio.
- bod camau wedi'u cymryd sy'n groes i Statud, Cyfarwyddeb, Cod Ymarfer, Is-ddeddfau neu amcanion yn ymwneud ag ansawdd dŵr, neu ei bod yn debygol y gallai hynny ddigwydd
- bod effeithiau ar ardaloedd o arwyddocâd arbennig megis Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) neu fan agored cyhoeddus

**e. Ymarferoldeb a chost trefniadau draenio eraill**

Wrth asesu cynllun arfaethedig, dylid ystyried costau ac effeithiolrwydd trefniadau carthffosiaeth preifat. Dylai'r rhain gynnwys costau cyfalaf, costau cynnal a chadw a chostau gweithredol dros gyfnod sy'n cyfateb i oes ddisgwyliedig carthffos gyhoeddus. Dylai ymgymerwyr carthffosiaeth ystyried a ellid gwneud y systemau presennol yn ddigon effeithiol i atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd neu ar amwynder drwy waith cynnal a chadw priodol ac atgyweirio. Bydd angen ystyried oedran, cynllun a lleoliad systemau o'r fath wrth wneud hynny.

Yn ogystal, dylid ystyried costau cyfreithiol ac anawsterau ymarferol fel y rhai sy'n gysylltiedig â chael ffyrddfreintiau neu dir ar gyfer systemau carthffosiaeth preifat. Mae systemau preifat yn cynnwys carthbyllau, tanciau carthion â suddfannau dŵr ac unedau trin carthion cryno unigol neu rai a rennir.

Dylid nodi nad yw fforddiadwyedd i drigolion unigol na methiant trefniadau rheoli presennol yn ffactorau wrth benderfynu.

**Atodiad 4**

**Ffurflen Gais ar gyfer Cynllun Carthffosiaeth Tro Cyntaf Adran 101A**

| |
|---|
| Sylwer:<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn ffurflenni cais Adran 101A yr ymgymerwyr carthffosiaeth<br><br>I fod yn gymwys i wneud cais rhaid bod **dau annedd domestig neu ragor** yn gollwng elifion carthion domestig.<br><br>Cyn llenwi'r ffurflen hon, darllenwch y Canllawiau ar gyfer gwneud Cais adran 101A. |

1. Enw a chyfeiriad y sawl sy'n cydlynu'r cais:

2. Sawl annedd sy'n gofyn am ddarpariaeth Carthffos Gyhoeddus? **Rhestrwch hwy yn Atodiad A os gwelwch yn dda**

Domestig: Annomestig:

*Nid yw'r ddyletswydd i ddarparu carthffos yn codi os yw'r cais ar gyfer un adeilad yn unig.*

3. Nifer yr anheddau y gwyddys bod eu trefniadau draenio'n ddiffygiol? **Nodwch y diffygion yn Atodiad A os gwelwch yn dda**

Domestig: Annomestig:

4. A oes deiliaid tai eraill yn y cyffiniau:

• yr ydych chi wedi trafod y mater â hwy
• sydd wedi mynegi parodrwydd i gysylltu â charthffos gyhoeddu pe bai un ar gael
• sy'n ymwybodol o'r costau sy'n gysylltiedig â chysylltu draeniau preifat â charthffos gyhoeddus newydd.

5. Nodwch pam yr ydych yn credu bod angen darparu carthffos gyhoeddus e.e. iechyd, amwynder, yr amgylchedd ac ati. Disgrifiwch natur a graddfa'r problemau amgylcheddol neu amwynderol presennol, neu'r problemau posibl oherwydd y trefniadau draenio presennol.

6. Rhestrwch isod a rhowch fanylion unrhyw ddeunyddiau ategol yr ydych yn eu hanfon gyda'r cais hwn, gan gynnwys unrhyw gysylltiad â chyrff cyhoeddus, megis Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, Asiantaeth yr Amgylchedd ac ati.

7. Disgrifiwch yn fyr drefniadau draenio presennol yr anheddau sy'n gysylltiedig â'r cais. Dylech hefyd amgáu cynllun bras sy'n dangos yr anheddau a'r trefniadau draenio.

8. A gafodd unrhyw waith adfer, neu'r posibilrwydd o wneud gwaith adfer, mewn cysylltiad â'r darpariaethau draenio presennol, ei ystyried / ei wneud er mwyn cywiro'r problemau amgylcheddol/amwynder cyn y cais hwn?

Os "Do", disgrifiwch y gwaith adfer a gafodd ei ystyried, a phryd y cafodd ei ystyried:

Os cafodd gwaith adfer ei wneud, beth gafodd ei wneud a phryd:

Os na chafodd gwaith adfer ei wneud, rhowch y rhesymau os gwelwch yn dda:

9. Rhestrwch isod unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'ch cais.

Cytunaf i gynrychioli'r ymgeisydd/ymgeiswyr a gofynnaf i chi gyfeirio pob gohebiaeth ataf fi.

Cytunaf, i ddibenion Deddf y Diwydiant Dŵr 2003 a Deddf Diogelu Data 1998, y gall *yr ymgymerwr carthffosiaeth* a'i wasanaethwyr a'i asiantau gadw'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen hon, ac yn unrhyw ddogfennau cysylltiedig, ar gyfrifiadur a'i phrosesu i bob diben sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau dŵr a charthion statudol y Cwmni.

**Enw**

**Llofnod** **Dyddiad**

Atodiad A

| Enwau'r Ymgeiswyr | Cyfeiriad a Chod Post yr Ymgeiswyr | Math O Gyfleuster Carthffosiaeth sy'n bodoli eisoes (e.e. Tanc Carthion ac ati) | Math o Ddiffyg | Llofnod yr Ymgeisydd/ Ymgeiswyr |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

***Atodiad 5 – Adroddiad enghreifftiol am benderfyniad am anghydfod***

***Adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 – Penderfyniad ynglŷn ag Anghydfod***

***Anghydfod a godwyd gan XXXX yn erbyn y penderfyniad gan XXXX ynglŷn â'r ddyletswydd i ddarparu carthffos gyhoeddus yn XXXX.***

1 Mae yr Arolygiaeth Gynllunio/Asiantaeth yr Amgylchedd (yr Asiantaeth) wedi ystyried y sylwadau a gyflwynwyd gan y ddau barti yn yr anghydfod, sef *<enw'r Ymgeisydd>* (yr Ymgeisydd) a *<enw'r Ymgymerwr Carthffosiaeth>* (y Cwmni).

**YR ANGHYDFOD**

2 Ar *<nodwch ddyddiad yr atgyfeiriad>* anghytunodd yr Ymgeisydd â phenderfyniad y Cwmni ynglŷn â'r ddyletswydd i ddarparu carthffos gyhoeddus i'w defnyddio i ddibenion carthffosiaeth ddomestig o anheddau yn *<nodwch enw'r ardal>*.

**RHESYMAU DROS YR ANGHYDFOD**

3 Paragraffau i ddisgrifio'r rhesymau dros yr anghydfod. (Dylai'r adran hon fod yn eithaf manwl a chynnwys y rhesymau a nodwyd yn y wybodaeth gan yr Ymgeiswyr, gwybodaeth gan y Cwmni a gwybodaeth gan unrhyw drydydd parti).

4 Mae yr Arolygiaeth Gynllunio/yr Asiantaeth yn cadarnhau bod yr anghydfod yn ymwneud â'r ddyletswydd i ddarparu carthffos gyhoeddus i'w defnyddio i ddibenion draenio carthffosiaeth ddomestig anheddau yn ardal *<nodwch enw'r ardal>*. Mae'r anghydfod hwn wedi ei gyfeirio at yr Arolygiaeth Gynllunio/yr Asiantaeth yn unol ag adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, (a101A(7)(a) WIA'91).

**DISGRIFIAD O'R ARDAL**

5 Paragraffau i ddisgrifio'r ardal lle mae'r anghydfod yn codi.

6 Ar y sail nad oes anghydfod rhwng yr Ymgeisydd a'r Cwmni ynglŷn â'r ardal y mae'r anghydfod yn ymwneud â hi, mae yr Arolygiaeth Gynllunio/yr Asiantaeth yn dod i'r casgliad, i ddibenion y penderfyniad hwn, y bydd yr ardal sy'n sail i'r anghydfod yn cynnwys yr anheddau a ddangosir ar y map <*cyfeirnod y map a ffynhonnell*>. Mae'r map hwn wedi ei atodi yn Atodiad A i ddogfen y penderfyniad hwn. Mae'r <*nodwch nifer yr anheddau*> annedd wedi eu rhestru isod:

<*Ychwanegwch restr o anheddau yn yr ardal berthnasol* >

**PENDERFYNIAD YR AROLYGIAETH GYNLLUNIO/ ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD**

(Nid yw hyn yn benodol ond dylid cynnwys cymaint â phosib o'r wybodaeth hon fel arfer yn y Penderfyniad)

7 Mae yr Arolygiaeth Gynllunio/yr Asiantaeth wedi ystyried y rhesymau dros yr anghydfod a nodwyd yn natganiad yr Ymgeisydd a'r ddogfennaeth gan y Cwmni *a gwybodaeth gan drydydd parti, os cafodd ei darparu.* Cynhaliwyd ymweliad â'r safle ar y cyd â'r Ymgeisydd a'r Cwmni ar <*dyddiad yr ymweliad â'r safle* > gan yr Arolygiaeth Gynllunio/yr Asiantaeth ac ystyrir canfyddiadau'r ymweliad hwnnw hefyd.

8 Darperir y ddyletswydd i ddarparu carthffos gyhoeddus yn unol ag adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (a101A) a fewnosodwyd gan baragraff 103 Atodlen 22 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Er mwyn sefydlu dyletswydd ar ran ymgymerwr carthffosiaeth i ddarparu carthffos gyhoeddus, mae'n rhaid bodloni rhai amodau penodol, sef:

a) Bod y cais yn ymwneud ag anheddau lle ceir adeiladau [17];

b) Nad yw draeniau neu garthffosydd a ddefnyddir i ddibenion draenio carthffosiaeth ddomestig yr anheddau dan sylw yn cysylltu â'r garthffos gyhoeddus; a

c) Bod draeniad yr anheddau y cyfeirir atynt yn (a) yn debygol o effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd neu ar amwynder a'i bod, ac ystyried yr uchod, yn briodol darparu carthffos gyhoeddus i ddibenion draenio carthffosiaeth ddomestig yr anheddau dan sylw.

Mae'r tri amod hyn yn cael eu hystyried yn fanwl ym mharagraffau <*ychwanegwch y rhif*> a <*ychwanegwch y rhif*> isod. Dyma'r amodau y dylid eu bodloni er mwyn sefydlu bod dyletswydd ar y Cwmni i ddarparu carthffos gyhoeddus.

[17] Cafodd yr amod ynglŷn â chodi adeiladau cyn 20 Mehefin 1995 ei ddiddymu o 28 Mai 2004 dan ddiwygiad i Ddeddf Dŵr 2003 fel bod modd bellach i bod adeilad gymhwyso.

**Anheddau Cymwys**

9 <*Mae hyn / Nid yw hyn*> wedi codi yn yr anghydfod hwn. <*Gellir rhoi disgrifiad, os oes angen* >

10 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru/ yr Asiantaeth felly'n nodi <*bod/nad yw*> gofynion amod (a) ym mharagraff <*ychwanegwch rif y paragraff*> uchod yn cael eu bodloni ar gyfer <*pob un / ychwanegwch y nifer*> *o'r* <*ychwanegwch y nifer*> annedd a restrir ym mharagraff <*ychwanegwch rif y paragraff*> uchod.

Dibenion Carthffosiaeth Ddomestig

11 <*Mae hyn / Nid yw hyn* > wedi codi yn yr anghydfod hwn. Mae <*pob un / rhai*> o'r anheddau sy'n rhan o'r anghydfod hwn yn rhyddhau carthffosiaeth ddomestig yn unig ac nid oes yr un ohonynt wedi'u cysylltu â charthffos gyhoeddus ar hyn o bryd.

12 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru/ yr Asiantaeth felly'n nodi <*bod/nad yw*> gofynion amod (b) ym mharagraff <*ychwanegwch rif y paragraff*> uchod yn cael eu bodloni ar gyfer <*pob un / ychwanegwch y nifer*> o'r <*ychwanegwch y nifer*> annedd a restrir ym mharagraff <*ychwanegwch rif y paragraff*> uchod.

**<u>Effeithiau ar yr Amgylchedd ac Amwynder</u>**

13 Mae amod (c) ym mharagraff < *ychwanegwch rif y paragraff* > uchod yn nodi bod yn rhaid ystyried effeithiau andwyol ar yr amgylchedd neu amwynder sy'n bodoli neu nad ydynt yn bodoli.

14 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru/yr Asiantaeth wedi rhoi sylw i statws pob annedd a gynhwyswyd gan y Cwmni yn ei asesiad a natur yr hyn sy'n cael ei ryddhau o bob un. Mae'r rhain yn cael sylw unigol isod.

Darparwch eglurhad ar gyfer pob annedd

15 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru/ yr Asiantaeth wedi ymdrin â statws yr anheddau y mae'n ystyried y dylid bod wedi eu cynnwys gan y Cwmni yn ei asesiad a natur yr hyn sy'n cael ei ryddhau o bob un. Mae'r rhain yn cael sylw unigol isod.

Darparwch eglurhad ar gyfer bob annedd ychwanegol os yw'n berthnasol

16 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru/ yr Asiantaeth yn ystyried <*bod / nad oes*> effeithiau andwyol ar yr amgylchedd ac amwynder yn deillio o systemau carthffosiaeth preifat presennol sy'n gwasanaethau anheddau yn yr ardal a asesir.

17 Mae yr Arolygiaeth Gynllunio/yr Asiantaeth o'r farn ei bod yn ddyletswydd gyffredinol ar y Cwmni dan adran 101A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 i ddarparu cyfleusterau cyhoeddus carthffosiaeth ddomestig ar gyfer anheddau mewn ardal benodol, yn unol â'r amodau a'r cymwysterau a bennir. Mae yr Arolygiaeth Gynllunio/yr Asiantaeth wedi rhoi ystyriaeth felly i'r 'ardal benodol' yn yr achos hwn. Nid oes diffiniad yn y Ddeddf nac unrhyw gymorth yn y canllawiau Gweinidogol. Mae yr Arolygiaeth Gynllunio/yr Asiantaeth felly yn ystyried pob un o ffactorau unigol yr achos dan sylw er mwyn llunio casgliad ynglŷn â'r hyn a olygir gan yr ardal benodol. Gall topograffeg, agosrwydd yr adeiladau a'r anheddau, gwahanfuriau rhwng anheddau neu fel arall, natur yr ardal a materion eraill i gyd fod yn berthnasol i'r cwestiwn hwn yn yr achos penodol hwn. Mae yr Arolygiaeth Gynllunio/yr Asiantaeth wedi asesu cais yr anghydfod ac wedi penderfynu bod yr anheddau canlynol yn ffurfio ardal: <*ychwanegwch nifer yr anheddau ac enwau neu cyfeiriwch yn ôl at y rhestr wreiddiol o anheddau os yw'r un fath*>.

18 Yma, gellir ychwanegu unrhyw wybodaeth arall am anheddau eraill sydd wedi eu hepgor o'r asesiad, canlyniadau profion trylifiad ayb.

19 Aeth yr Arolygiaeth/yr Asiantaeth ymlaen i ystyried, yn sgil canfyddiad y Rheoleiddiwr bod effeithiau andwyol ar yr amgylchedd neu amwynder yn yr ardal a aseswyd, a oedd yn briodol darparu carthffos gyhoeddus. Rhoddwyd sylw i bob ystyriaeth briodol, yn arbennig y materion penodol yn adran 101A(3). Darparodd y Cwmni asesiad technegol ac economaidd a oedd yn rhan o'r ystyriaeth. <*Dileer os na chanfuwyd dim effeithiau andwyol ar yr amgylchedd neu amwynder*>

**Asesiad Technegol ac Economaidd**

20 Mae amod c) ym mharagraff <*ychwanegwch rif y paragraff*> uchod yn darparu bod yn rhaid ystyried, os bodlonir pob amod arall, ai darparu carthffos gyhoeddus yw'r ateb priodol. Mae amod c) felly yn cynnwys asesiad technegol ac economaidd. Mae adran 101A(3) y Ddeddf yn nodi'r elfennau canlynol y dylid eu hystyried wrth wneud penderfyniad:

(a) daeareg yr ardal dan sylw neu unrhyw ardal arall;

(b) nifer yr anheddau, sy'n anheddau ac adeiladau arnynt, y gellid disgwyl yn rhesymol eu bod yn cael eu draenio gan y garthffos honno;

(c) costau darparu'r garthffos honno;

(d) natur a graddfa unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd neu amwynderau sy'n codi, neu sy'n debygol o godi, o ganlyniad i'r ffaith nad yw'r anheddau neu, yn ôl fel y digwydd, yn ardal dan sylw yn cael eu draenio gan garthffos gyhoeddus; ac

(e) y graddau y mae’n ymarferol datrys yr effeithiau hynny ac eithrio drwy ddarparu carthffosydd cyhoeddus (yn rhinwedd yr adran hon neu fel arall), a chostau datrys yr effeithiau hynny.

21 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru/yr Asiantaeth wedi ystyried pob un o'r meini prawf yn adran 101A(3) ac wedi ystyried Canllawiau gan Weinidogion Cymru a gyflwynwyd yn 2015. Ystyrir mai'r paragraffau canlynol yn y canllawiau hynny (a ddangosir mewn print bras) yw'r mwyaf perthnasol yn yr achos hwn.

**Asesiad Technegol**

22 Paragraffau sy'n ailddatgan y paragraffau perthnasol yn y Cyfarwyddyd wedi’u hategu â thystiolaeth gan yr Ymgeiswyr, y Cwmni ac ymweliad â'r safle.

23 *<Mae/Nid yw>* Cyfoeth Naturiol Cymru/yr Asiantaeth felly yn derbyn, ar ôl ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan y ddau barti ac o'r ymweliad ar y cyd â'r safle fel y nodwyd ym mharagraffau *<ychwanegwch rif y paragraffau>*, fod draeniad yr anheddau yn ardal *<enw ardal yr anghydfod>* yn cael ac yn debygol o gael effaith andwyol ar yr amgylchedd neu amwynder. Dylai'r paragraff hwn hefyd gyfeirio at yr adran ar yr effeithiau ar yr amgylchedd ac amwynder.

*24* Mae Cyfoeth Naturiol Cymru/yr Asiantaeth wedi ymdrin ag a ellir datrys yr effeithiau andwyol ar yr amgylchedd ac amwynder yn ymarferol yn y tymor hir trwy atgyweirio, cynnal a chadw priodol neu ailadeiladu'r systemau presennol *<dileer os na chanfuwyd bod effeithiau andwyol yn codi neu'n debygol o godi>*

Paragraffau i egluro p’un a ellir goresgyn yr effeithiau andwyol ar yr amgylchedd ac amwynder ai peidio trwy atgyweirio dros y tymor hir, cynnal a chadw priodol neu ailadeiladu'r system bresennol.

25 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru/yr Asiantaeth yn nodi bod *<nifer yr anheddau>* annedd y mae eu systemau carthffosiaeth preifat presennol yn cael, neu'n debygol o gael, effeithiau andwyol ar yr amgylchedd ac amwynder na ellir eu datrys yn ymarferol trwy gynnal a chadw nac atgyweirio yn yr ardal benodol. Rhestrir yr anheddau isod:

*<Ychwanegwch restr o anheddau sy'n cael, neu'n debygol o gael effeithiau andwyol na ellir eu goresgyn drwy waith cynnal a chadw, atgyweirio nac ailadeiladu >*

**Asesiad Economaidd**

26 Paragraffau’n amlinellu'r costau, fel y'u darparwyd gan y Cwmni. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am gyfanswm y costau, costau NPV, cost a budd amgylcheddol, unrhyw ddiwygiadau i gostau, opsiynau nad ystyrir eu bod yn ymarferol (e.e. ni fyddai caniatâd yn cael ei roi, tanciau carthion yn anaddas), gwybodaeth am unrhyw fater yr ymholwyd yn ei gylch ayb.

Paragraffau’n trafod canfyddiadau'r asesiad hwn, gan gynnwys a ydym yn cytuno â nifer yr anheddau a aseswyd gan y Cwmni ac unrhyw effeithiau y byddai hyn yn eu cael ar gostau ac ar ein hasesiad o'r costau a ddarparwyd gan y Cwmni a/neu'r ymgeisydd.

Dylai'r adran hon hefyd gynnwys trafodaeth am unrhyw newidiadau i'r opsiynau neu unrhyw opsiynau eraill a ystyriwyd yn ystod yr anghydfod.

Nid oes angen yr adran hon os na chanfuwyd bod effeithiau andwyol yn codi neu'n debygol o godi o systemau carthffosiaeth preifat presennol neu os ydym yn dod i’r casgliad y gellid datrys y cyfryw effeithiau yn yr ardal berthnasol drwy atgyweirio a chynnal a chadw'r systemau presennol.

**Ystyriaethau Eraill**

27 Trafodaeth ehangach ar ein canfyddiadau ac agweddau eraill yr ydym wedi eu hystyried (e.e. cynaliadwyedd, symudiadau tanceri, polisi carthbyllau, ymarferoldeb)

## PENDERFYNIAD

28 Paragraffau'n crynhoi ein casgliadau ar bwyntiau allweddol a'r modd yr ydym wedi cydbwyso a chloriannu'r ystyriaethau hynny yn ein penderfyniad.

29 Mae yr Arolygiaeth Gynllunio/yr Asiantaeth wedi ystyried cyflwyniadau’r partïon ac, yn benodol, yr opsiynau y mae'r Cwmni wedi eu hystyried. Mae yr Arolygiaeth Gynllunio/yr Asiantaeth wedi rhoi sylw i'r holl ystyriaethau a amlinellir yn adran 101A(3) a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Mae yr Arolgyiaeth Gynllunio/yr Asiantaeth o’r farn mai'r ateb mwyaf priodol yn yr achos hwn er mwyn lliniaru'r effeithiau andwyol ar yr amgylchedd ac amwynder yw <*disgrifio'r ateb, ar gyfer pa anheddau a nodwch gyfeiriad at y map os oes angen* >

30 Yn unol â hynny, mae yr Arolygiaeth/yr Asiantaeth, ar ôl rhoi sylw i’r canllawiau Gweinidogol a'r holl ystyriaethau perthnasol yn yr achos penodol hwn, gan gynnwys yn benodol y ffactorau technegol, o'r farn nad yw darparu <*carthffos gyhoeddus/disgrifiwch yr ateb preifat*> yn ateb priodol.

31 Am y rhesymau a nodir uchod, mae yr Arolygiaeth Gynllunio/yr Asiantaeth felly o'r farn <*bod/nad yw*> y ddyletswydd i ddarparu carthffos gyhoeddus yn berthnasol i'r anheddau yn <*enw ardal yr anghydfod*> a <*bod/nad yw*> y cwmni dan ddyletswydd i ddarparu carthffos gyhoeddus.

32 Mae yr Arolygiaeth Gynllunio/yr Asiantaeth felly yn penderfynu o blaid <*y Cwmni/yr Ymgeisydd*> yn yr anghydfod.

33 <***Pan benderfynir o blaid yr Ymgeisydd yn yr anghydfod, dylid cynnwys:*** Mae yr Arolygiaeth Gynllunio/Asiantaeth yr Amgylchedd yn argymell y dylai'r Cwmni roi gwybod i'r Ymgeisydd, yr Arolygiaeth Gynllunio a Chyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd, **cyn pen tri mis**, pryd y bydd y cynllun yn cael ei weithredu>.

34 Ychwanegwch unrhyw argymhellion eraill e.e. o ran mesurau dros dro y dylai'r naill ochr neu'r llall eu cymryd, neu o ran asesiadau y dylai'r Cwmni eu cynnal yn y dyfodol.

Mae copi o'r penderfyniad hwn wedi ei anfon at yr Ymgeisydd/Ymgeiswyr ac

at y Cwmni.


**<enw rheolwr prosiect yr anghydfod>**
**<teitl swydd>**

**<dyddiad yn llawn>**

**Atodiad A – Map <Byddai map o'r ardal yr effeithir arni yn cael ei osod yma >**

## Atodiad 6

Cwmnïau dŵr yn y Deyrnas Unedig




**Map drwy garedigrwydd Water UK**

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yn gymwys):

E-bost / Rhif ffôn:

**Cwestiwn :** Ydych chi'n cytuno â'r trywydd a gynigir ynghylch carafanau parhaol a chartrefi symudol, mewn cysylltiad â cheisiadau Adran 101A?

**Cwestiwn 2:** A yw'r broses newydd ar gyfer dynodi'r Arolygiaeth Gynllunio fel y corf datrys anghydfodau ar gyfer ceisiadau o dan Adran 101A yn glir?

**Cwestiwn 3:** A oes gennych farn arall am y Canllaw diwygiedig ar ddyletswydd ymgymerwyr carthffosiaeth i ddarparu carthffosydd heblaw trwy orfodaeth?

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi:

Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgynghoriad eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych ein bod yn cadw'ch ymateb yn ddi-enw, ticiwch y blwch hwn. ☐